www.ysgolglanmorfa.co.uk
26.6.26

Ysgol Glan Morfa

# CYLCHLYTHYR
# NEWSLETTER




## Yn y rhifyn hwn

- DIWRNODAU HMS 2026-27
- FFILMIO "NEWYDDION NI"
- TAFWYL - DIOLCH
- DIGWYDDIADAU'R GYMUNED
- DYDDIADAU PWYSIG

## In This Issue

- INSET DAYS 2026-27
- FILMING - "NEWYDDION NI"
- TAFWYL - DIOLCH
- COMMUNITY EVENTS
- IMPORTANT DATES




**DIWRNODAU HMS 2025-26**

20.7.26

Dim ysgol i'r disgyblion

**INSET DAYS 2025-26**

20.7.26

No school for pupils

**Gyda 'n Gilydd Fe Lwyddwn | Together We Will Succeed**

Ysgol Glan Morfa

# CYLCHLYTHYR NEWSLETTER




Dyma ddyddiadau HMS Ysgol Glan Morfa ar gyfer 2026–27

- **Dydd Mawrth, 1af o Fedi 2026**
- **Dydd Mercher, 2il o Fedi 2026**
- **Dydd Gwener, 25ain o Fedi 2026**
- **Dydd Gwener, 16eg o Hydref 2026 (HMS Clwstwr)**
- **Dydd Llun, 22ain o Chwefror 2027**
- **Dydd Gwener, 30ain o Ebrill 2027**

Bydd y tymor yn dod i ben ar ddydd Mawrth, 20fed o Orffennaf 2027.

**Tafwyl - Diolch**

Diolch i bawb wnaeth fynychu Tafwyl y penwythnos diwethaf. Braf oedd gweld cymaint o blant yn canu a perfformio ar y llwyfan!

**Tywydd Poeth**

Diolch o galon i chi gyd am eich cefnogaeth yr wythnos hon. Mae wedi bod yn wythnos heriol oherwydd y tywydd poeth, ac rydym wedi gorfod gwneud rhai penderfyniadau anodd. Mae eich dealltwriaeth a'ch cefnogaeth wedi gwneud hyn yn llawer haws, ac rydym yn gwerthfawrogi hynny'n fawr. Diolch.




Here are the INSET days for Ysgol Glan Morfa for 2026–27:

- **Tuesday, 1 September 2026**
- **Wednesday, 2 September 2026**
- **Friday, 25 September 2026**
- **Friday, 16 October 2026 (Cluster INSET)**
- **Monday, 22 February 2027**
- **Friday, 30 April 2027**

The school year will finish on Tuesday, 20 July 2027.

**Tafwyl - Thank you**

Thanks to all of you who attended Tafwyl on the weekend. It was lovely to see the pupils singing and performing on stage!

**Warm Weather**

Thank you all so much for your support this week. It has been a challenging time due to the warm weather, and we've had to make some difficult decisions. Your understanding and support have made this much easier, and we are truly grateful.
Thank you. Diolch.

Ysgol Glan Morfa

# CYLCHLYTHYR NEWSLETTER

**Ffilmio - Newyddion Ni**

Yr wythnos hon, daeth tîm Newyddion Ni i'r ysgol i ffilmio criw o ddisgyblion yn ein dosbarth Maeth fel rhan o'n prosiect bioamrywiaeth.

Gallwch wylio'r eitem ar Newyddion Ni brynhawn dydd Gwener ar S4C, ac mae hefyd ar gael ar BBC iPlayer.

NEWYDDION Ni

**Bore Pontio**

Ar fore Mercher, cynhaliwyd bore pontio llwyddiannus yn yr ysgol. Cafodd y disgyblion gyfle i ymweld â'u dosbarthiadau newydd ar gyfer mis Medi 2026, treulio amser yn yr amgylchedd newydd a dechrau dod i'w hadnabod. Roedd hefyd yn gyfle gwerthfawr iddynt gyfarfod â'u hathrawon newydd, gofyn cwestiynau a theimlo'n fwy hyderus am y cam nesaf yn eu taith addysgol. Roedd yr awyrgylch yn gadarnhaol ac yn llawn cyffro wrth i bawb edrych ymlaen at y flwyddyn newydd.

**Newyddion Ni - Filming**

This week, the Newyddion Ni team visited the school to film a group of pupils from our Nurture class as part of our biodiversity project.

You can watch the feature on Newyddion Ni on Friday afternoon on S4C, and it will also be available on BBC iPlayer.

**Transition Morning**

On Wednesday morning, the school held a successful transition session. Pupils had the opportunity to visit their new classes for September 2026, spend time in their new environment, and begin to familiarise themselves with it.

It was also a valuable chance for them to meet their new teachers, ask questions, and feel more confident about the next step in their educational journey. The atmosphere was positive and full of excitement as everyone looked forward to the new school year.

# CYLCHLYTHYR NEWSLETTER




JustGiving™

**Beicathon**

Diolch yn fawr i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am drefnu'r cyfle i chi allu cyfrannu tuag at ein Beicathon drwy'r wefan JustGiving.

Gallwch wneud hyn drwy glicio ar y ddolen isod, ac cofiwch ei rhannu gyda ffrindiau a theulu er mwyn ein helpu i gyrraedd ein targed o £5000!

Bydd yr holl arian a godir yn mynd tuag at ddatblygu ein hardaloedd allanol.

Diolch o galon am eich cefnogaeth barhaus.

https://www.justgiving.com/campaign/beicathon-bikeathon-2026?utm_medium=CA&utm_source=CL

Gallwch hefyd gyfrannu drwy GroupEd neu drwy ddull traddodiadol o arian parod/ffurflen noddi.

**Bikeathon**

A big thank you to the Parents and Teachers Association for organising the opportunity for you to contribute towards our Bikeathon via the JustGiving website.

You can do this by clicking the link below, and please remember to share it with friends and family to help us reach our target of £5,000!
All funds raised will go towards developing our outdoor areas.

Thank you very much for your continued support.

https://www.justgiving.com/campaign/beicathon-bikeathon-2026?utm_medium=CA&utm_source=CL

You can also contribute through GroupEd or via traditional cash payments/sponsor form.

Ysgol Glan Morfa

# CYLCHLYTHYR NEWSLETTER

diogelwch dŵr Cymru
water safety Wales

**Diogelwch Dŵr**
**Peryglon Nofio mewn Llynnoedd ac Afonydd**

Wrth i'r tywydd gynhesu, mae'n demtasiwn i oeri trwy fynd i mewn i lynnoedd neu afonydd. Fodd bynnag, gall hyn fod yn hynod beryglus.

Mae llawer o beryglon cudd mewn dyfroedd naturiol, gan gynnwys:

- **Sioc dŵr oer** – gall hyd yn oed ar ddiwrnod poeth, dŵr fod yn oer iawn gan achosi anadlu'n afreolaidd, panig a risg o foddi [watersafet...les.org.uk]
- **Ceryntau cryfion** a all eich llusgo i ffwrdd
- **Dyfnder annisgwyl** a glannau serth sy'n ei gwneud hi'n anodd mynd allan
- **Gwrthrychau cudd** o dan y dŵr fel gwydr neu falurion
- **Dim achubwyr bywyd** mewn y rhan fwyaf o leoliadau [southwales...ire.gov.uk]

Cofiwch: gall hyd yn oed nofwyr hyderus gael trafferth mewn dŵr agored.

Awgrymiadau i gadw'n ddiogel:
- Peidiwch â mynd i mewn i ddŵr agored heb oruchwyliaeth
- Dilynwch yr arwyddion diogelwch bob amser
- Dewiswch leoliadau diogel gyda goruchwyliaeth, fel traethau â gwarchodwyr
- Peidiwch byth â neidio i mewn i ddŵr oer yn sydyn
- Os ydych mewn perygl, ceisiwch"Arnofio i Fyw" (Float to Live) a galwch am help

Am ragor o wybodaeth, ewch i:
https://www.watersafetywales.org.uk/advice-hub

**Water Safety –**
**The Dangers of Swimming in Lakes and Rivers**

As the weather gets warmer, it can be tempting to cool off by swimming in lakes or rivers. However, this can be extremely dangerous.

**There are many hidden risks in open water, including:**

- **Cold water shock** – even on a hot day, water can be very cold, causing gasping, panic and increasing the risk of drowning [watersafet...les.org.uk]
- **Strong currents** that can quickly carry you away
- **Unexpected depth** and steep, slippery banks that make it difficult to get out
- **Hidden objects** such as debris or broken glass
- **No lifeguards** in most open water locations [southwales...ire.gov.uk]

Remember: even strong swimmers can get into difficulty in open water.

Top safety tips:
- Never enter open water unsupervised
- Always follow safety signs and guidance
- Choose safe, supervised locations such as lifeguarded beaches
- Never jump straight into cold water
- If you get into trouble, try to"Float to Live" and call for help

For more information, please visit:
https://www.watersafetywales.org.uk/advice-hub

www.ysgolglanmorfa.co.uk

Ysgol Glan Morfa

# CYMUNED
# COMMUNITY



Ysgol Glan Morfa

# CYMUNED COMMUNITY

Rhaid ymaelodi gyda'r Urdd i fynychu
Must be an Urdd member to attend
> urdd.cymru/ymuno <

Aelodaeth £1 ar gael i'r rheiny sy'n derbyn cefnogaeth ariannol
£1 membership for those receiving income support

Chwaraeon

*Cynnwys potel ddŵr a bag am ddim | Free water bottle and bag included*


## NOFIO DWYS YR URDD
## URDD INTENSIVE SWIMMING

Nofio dwys cyfrwng Cymraeg ar draws De Cymru ar gyfer bob oedran a gallu
Welsh language intensive swimming across South Wales for children of all ages and abilities

| | | |
|---|---|---|
| **C.H Gorllewin** \| Western L.C | 10/08 - 14/08/26 | Oed \| Age 3+ |
| **C.H Bedwas** \| Bedwas L.C | 17/08 - 21/08/26 | Oed \| Age 3+ |
| **C.H Barri** \| Barrry L.C | 24/08 - 28/08/26 | Oed \| Age 4+ |

Mae taliadau ar gyfer nofio dwys yn cael ei talu fesul wythnos a gallwch ddarganfod gwybodaeth bellach trwy ymweld â gwefan yr Urdd.

*Payment for intensive swimming are paid by the week, you can find further information regarding cost of lessons by heading over to the Urdd website.*



Llefydd cyfyngedig | Limited spaces

Mae croeso i nofwyr newydd ac mae rhestrau aros ar gael os mae gwersi yn llawn


*New swimmers are welcome to join and waiting lists are available if lessons are full*

| Lleoliad \| Location | Wave \| Ton | Pris \| Price |
|---|---|---|
| C.H Gorllewin<br>Western L.C<br>CF5 5HJ | Sblash \| Splash 08:00 - 08:30<br>Ton \| Wave 3 08:00 - 08:30<br>Ton \| Wave 1 + 2 08:30 - 09:00 | £35<br>am yr wythnos |
| C.H Bedwas<br>Bedwas L.C<br>CF83 8BJ | Sblash \| Splash 10:00 - 10:30<br>Ton \| Wave 4/5 10:00 - 10:30<br>Ton \| Wave 1 & 2/3<br>10:30 - 11:00 | £32.50<br>am yr wythnos |
| C.H Barri<br>Barry L.C<br>CF63 4JJ | Ton \| Wave 1 + 4/5 10:00 - 10:30<br>Ton \| Wave 2 & 3 + 6/7/8<br>10:30 - 11:00 | £32.50<br>am yr wythnos |

u/SportsRegistration
ro UrddCaerdyddFro

Ysgol Glan Morfa

# SIARTER IAITH






## Siarter Iaith / Welsh Language Charter

**Patrwm Iaith yr Wythnos / Language Pattern**
Ble mae dy…? (Where is your…?) (Het/bag/potel) (Hat/bag/bottle)

**Her / Challenge**
Mae fy...ar y/wrth ymyl y/yn y …. (My… is on/ by/in the...)

**Testun Trafod / Discussion Topic**
A ddylai plant gael bwyta pwdin cyn pryd bwyd? ("Should children be allowed to eat dessert before their meal?")

**Cân yr wythnos / Song of the week**

**Un Am y Lôn - Yws Gwynedd**
**https://www.youtube.com/watch?v=6_ot-wq8GGI**






## Idiom yr Wythnos / Idiom of the Week

**Gwell hwyr na hwyrach**
**Bod yn gefn i rywun (To support someone)**

Ysgol Glan Morfa

# CALENDR

| Mehefin / June | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithdy Menter a Busnes - Blynyddoedd 3 a 4** | **Years 3 & 4 Business and Venture Workshop** | 29.6.26 | Bore / Morning |
| **Cyfarfod Rhieni Blwyddyn 5 - Arweinwyr Bro Edern** | **Year 5 Parents Meeting - Leaders of Bro Edern** | 30.6.26 | 3:00pm<br>(Neuadd Fach / Small Hall) |
| **Wythnos Calon Lan / Healthy Heart Week<br>29 Mehefin/June - 3ydd o Orffennaf/July** | | | |

Ysgol Glan Morfa

# CALENDR

## Gorffennaf / July

| Beth? | What? | Dyddiad / Date | Amser / Time |
|---|---|---|---|
| **Ffair Haf** | **Summer Fayre** | 1.7.26 | 15:00 - 17:00 |
| **Beicathon! Her Noddedig** | **Bikeathon! Sponsored Event.** | 3.7.26 | Trwy'r dydd / All day |
| **Gwersi Nofio Blwyddyn 3** | **Year 3 Swimming Lessons** | 6.7.26 – 17.7.26 | 10:15 -11:00 |
| **Sioe Diwedd Blwyddyn yr Ysgol Uchaf – Ysgol Bro Edern** | **Upper School End of Year Show – Ysgol Bro Edern** | 9.7.26 | 17:00 |
| **Taith i Ddwr Cymru - Blwyddyn 2** | **Year 2 Visit to Welsh Water** | 10.7.26 | Trwy'r dydd / All day |
| **Taith "Hwyl" Blwyddyn 6** | **Year 6 "Fun" Visit** | 13.7.26 | Trwy'r dydd / All day |
| **Rygbi ar y Traeth - Ynys y Bari** | **Rugby on the Beach - Barry Island** | 14.7.26 | Trwy'r dydd / All day |
| **Gweithdy Dawns Dosbarth Derbyn** | **Reception Class Dance Workshop** | 14.7.26 | Bore / Morning |
| **Ymweliad Blynyddoedd 4 a 5 i Sain Ffagan** | **Years 4 and 5 visit to St Fagans** | 16.7.26 | Trwy'r dydd / All day |
| **Diwrnod Olaf y Tymor (gemau bwrdd)** | **Last Day of Term (board games)** | 17.7.26 | Trwy'r dydd / All day |

**Gwyliau'r Haf / Summer Holidays**